

Polisi Diogelu Disgyblion Bysiau Ysgol Gynradd Ar Ymyl y Ffordd

Dylai rhiant bob amser fod mewn safle bws cydnabyddedig 10 munud cyn bod cludiant ysgol fod i gyrraedd i gasglu neu ddychwelyd eu plentyn/ plant. Fodd bynnag, cydnabyddir ei bod yn bosibl, mewn amgylchiadau eithriadol, na fydd rhiant yn gallu dod i'r safle bws ar amser yn ôl y disgwyl. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos plant ysgol gynradd.

I leihau unrhyw risgiau y bydd o'r fath yn digwydd, gofynnir i bob Gweithredwr Cerbyd Cludo Teithwyr sicrhau eu bod yn gofyn am gymorth gan eu gyrrwyr ar bob taith i Ysgolion Cynradd i sicrhau fod oedolyn cyfrifol yn cwrdd â phob teithiwr ysgol gynradd rheolaidd cyn iddynt yrru i ffwrdd. Os nad oes rhywun yn dod i gwrdd â phlentyn a'i bod yn ymddangos fod y plentyn ar ei ben ei hun heb oedolyn cyfrifol, ni ddylai'r gyrrwr adael y plentyn, aros am gyfnod rhesymol ac / neu wedyn parhau i fynd â'r plentyn ar y bws a chysylltu â'r depo. Yna dylai'r Gweithredwr, yn ei dro, gysylltu ag Uned Gludiant i'r Ysgol y Cyngor a byddwn yn ceisio cysylltu â'r rhiant ac / neu'r ysgol mor fuan â phosibl a rhoi cyngor parhaus. Yn yr achos annhebygol nad oes modd datrys y mater yn brydlon, byddwn yn rhoi cyngor pellach ar ba ddewis argyfwng y dylid ei ddilyn. Yna byddwn yn cymryd camau dilynol gan roi cyngor sydd ei angen i'r rhiant a'r ysgol.

Cyfarwyddir fod gweithredwyr yn cymryd gofal ychwanegol os nad yw gyrrwr arferol ar gael am unrhyw reswm. Os gwneir cynlluniau i newid gyrrwr, dylai'r gyrrwr newydd gysgod i'r gyrrwr arferol cyn y newid er mwyn sicrhau bod myfyrwyr ac oedolion yn gyfarwydd â'i gilydd yn ogystal â'r llwybr. Cânt eu cynghori hefyd i ffonio ein swyddfa os oes unrhyw amheuan neu ddryswch ynghylch unrhyw fyfyrwr sy'n cael eu cludo, dim ots beth yw eu hoedran.